

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Brynsaron

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae gan y pennaeth dros dro adnabyddiaeth drylwyr o weithdrefnau'r ysgol, mae'n deall anghenion yr holl ddisgyblion yn dda, ac mae'n defnyddio hyn i roi cyfeiriad cadarn iddi. Mae ganddi gefnogaeth gref y llywodraethwyr, y staff cyfan, y disgyblion a'r rhieni, gan sicrhau bod yr ymdeimlad cryf o deulu a gwaith tîm yn parhau'n  elfennau cadarn o fywyd yr ysgol.

Un o nodweddion pennaf yr ysgol yw'r ymdeimlad gofalgar, parchus a theuluol sy'n bodoli ynddi. Mae pob aelod staff, beth bynnag yw ei rôl, yn teimlo'n rhan greiddiol o'r gymuned ac maent bob amser yn barod i wrando ar bryderon y disgyblion ac ymateb yn briodol iddynt, lle bo angen. Maent yn ymateb yn dda i anghenion bron pob disgybl, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus, yn ymddwyn yn dda ac yn ymfalchïo eu bod yn perthyn i'r ysgol hon. Mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd wedi eu hadnabod fel disgyblion sydd ag ADY, yn gwneud cynnydd cadarn ym mron pob agwedd o'u dysgu. Er hyn, cyfyng yw strategaethau darllen, geirfa a phatrymau iaith y lleiafrif. Mae hyn yn cyfyngu ar eu mwynhad o ddarllen, eu gallu i gywain gwybodaeth o brint a'u gallu i fynegi eu hunain yn gwbl rugl yn y Gymraeg.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a diddorol i'r disgyblion, gan ystyried eu barn yn synhwyrol am yr hyn maent am ei ddysgu mewn perthynas â'r themâu. Mae hyn yn rhoi perchnogaeth iddynt o'u gwaith ac yn eu hannog i roi o'u gorau. Er hyn, nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau digidol ar draws amrywiol feysydd y cwricwlwm nac yn sicrhau eu bod bob amser yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'r diwylliant Cymreig yn dda iawn. Maent yn achub ar gyfleoedd cyfoethog i annog y disgyblion i ddathlu eu Cymreictod drwy ystod o weithgareddau pwrpasol sy'n meithrin eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u balchder yn ystyrlon ac effeithiol. Trwy adeiladu ar hyn, maent hefyd yn rhoi ystyriaeth gadarn i addysgu'r disgyblion, nid yn unig am eu hardal leol a Chymru, ond hefyd am le Brynsaron mewn cyd-destun ehangach.

# Argymhellion

**A1** **Codi safonau llafaredd Cymraeg disgyblion hŷn i'w galluogi i fynegi eu hunain yn gwbl rugl**

**A2** **Cryfhau strategaethau i alluogi disgyblion i ddeall yn well beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith**

**A3** **Datblygu medrau darllen annibynnol disgyblion**

**A4** **Cynyddu cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau digidol ar draws meysydd amrywiol y cwricwlwm**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Brynsaron |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 48 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 34 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 23.0%) | 8.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 16.1%) | 32.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 44% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 07/11/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/02/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 06/02/2023 |
| Mae un o athrawon profiadol yr ysgol yn gweithredu fel pennaeth dros dro nes i'r pennaeth newydd ddechrau ar y gwaith mewn ychydig wythnosau. | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/04/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.